**PWYLLGOR ADDYSG A DYSGU GYDOL OES**

**ADRODDIAD BLYNYDDOL A CHRYNODEB O'R GWEITHGAREDDAU YN YSTOD 2000 - 2003**

**RHAGARWEINIAD**
Cyn y Cytundeb Partneriaeth rhwng y blaid Lafur a'r Democratiaid Rhyddfrydol ar 6 Hydref 2000, roedd materion addysg a hyfforddiant yn rhan o gylch gwaith dau bwyllgor pwnc ar wahân: Y Pwyllgor Addysg cyn 16 oed, Ysgolion ac Addysg Gynnar (Pwyllgor Cyn 16 oed), a'r Pwyllgor Addysg a Hyfforddiant ar ôl 16 oed (Pwyllgor ar ôl 16 oed).

**Y PWYLLGOR ADDYSG CYN 16 OED, YSGOLION AC ADDYSG GYNNAR**
Roedd cylch gwaith y Pwyllgor yn adlewyrchu portffolio'r Gweinidog dros Addysg a Phlant, Rosemary Butler AC (bryd hynny). Roedd y cyfrifoldebau'n amrywio o addysg feithrin a'r blynyddoedd cynnar i safonau ysgolion a'r cwricwlwm cenedlaethol yng Nghymru i ddarparu addysg ar gyfer myfyrwyr ar ôl 16 oed mewn ysgolion. Bu'r Pwyllgor hefyd yn ystyried nifer o faterion trawsbynciol gyda'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a bu'r ddau Bwyllgor yn gweithio'n agos ar y gwaith o ystyried adroddiadau Waterhouse a'r Comisiynydd Plant.

Dechreuodd y Pwyllgor ar dri adolygiad polisi, a gafodd eu cwblhau maes o law gan y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes:
- Darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar ar gyfer Plant 3 Oed - cyhoeddodd y Pwyllgor Cyn 16 Oed adroddiad interim a chyhoeddwyd yr adroddiad terfynol gan y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes.
- Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu mewn Addysg; a'r
- Y Cyflenwad o Lefydd mewn Ysgolion

Bu'r Pwyllgor yn ystyried cynigion gan ACCAC (yr Awdurdod Cwricwlwm a Chymwysterau yng Nghymru) i adolygu'r cwricwlwm cenedlaethol a bu hefyd yn craffu ar gynigion y Gweinidog ar gyfer y trefniadau rheoli perfformiad athrawon.

Bu'r Pwyllgor yn gweithio'n agos iawn gyda'r Pwyllgor ar ôl 16 oed tra bu'n adolygu argymhellion y Cynllun Gweithredu Addysg a Hyfforddiant.

Y Pwyllgor fu'n gyfrifol am graffu ar ACCAC o ran gweithredu ei gynllun corfforaethol. Bu'r Pwyllgor hefyd yn craffu ar ESTYN (Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant Ei Mawrhydi yng Nghymru).

**Y PWYLLGOR ADDYSG A HYFFORDDIANT AR ÔL 16 OED**
Roedd cylch gwaith y Pwyllgor yn adlewyrchu portffolio'r Gweinidog dros Addysg a Hyfforddiant, Tom Middlehurst AC (bryd hynny). Roedd yn cynnwys addysg uwch, diwylliant, chwaraeon a hamdden a'r iaith Gymraeg.

Yn ystod ei oes, cwblhaodd y Pwyllgor adolygiad o argymhellion y Cynllun Gweithredu Addysg a Hyfforddiant, ar y cyd â'r Pwyllgor cyn 16 oed a'r Pwyllgor Datblygu Economaidd. Cymeradwywyd adroddiad y Pwyllgor yn y

Cyfarfod Llawn ym mis Chwefror 2000. O ganlyniad, sefydlwyd Cyngor Cenedlaethol Cymru dros Addysg a Hyfforddiant (sef y Cyngor Cenedlaethol - ELWa. Mae hwn yn gyfrifol am ariannu'r holl addysg a hyfforddiant ar ôl 16 oed yng Nghymru) a hefyd y gwasanaeth gyrfaoedd cenedlaethol - Gyrfa Cymru.

Cwblhaodd y Pwyllgor adolygiad helaeth o gelf a diwylliant yng Nghymru a chyhoeddodd adolygiad cynhwysfawr 'Diwylliant Cytûn', a oedd yn cynnwys dros gant o argymhellion.

Hefyd, bu'r Pwyllgor yn gyfrifol am fonitro a chraffu ar y cynghorau addysg bellach ac uwch (CCABC a CCAUC).

**Y PWYLLGOR ADDYSG A DYSGU GYDOL OES**
Cynhaliodd y Pwyllgor ei gyfarfod cyntaf ar 15 Tachwedd 2000. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'n gweithgareddau o fis Tachwedd 2000 hyd yma. Gellir gweld copïau o adroddiadau, agendâu, papurau, cofnodion a thrawsgrifiadau o gyfarfodydd ar dudalennau'r pwyllgor ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol - www.cymru.gov.uk

**Aelodaeth**
Yr aelodau presennol yw Gareth Jones (Cadeirydd), Jane Davidson (Gweinidog), Alun Pugh (Dirprwy Weinidog), Lorraine Barrett, Mick Bates, Cynog Dafis, Janice Gregory, Jonathan Morgan, Helen Mary Jones a Huw Lewis.

Newid y rhestr aelodaeth bedair gwaith ers i'r pwyllgor gael ei sefydlu:
- Daeth Eleanor Burnham yn lle Christine Humphreys ar 3 Ebrill 2001
- Daeth Mick Bates yn lle Eleanor Burnham ar 16 Hydref 2001;
- Daeth Helen Mary Jones yn lle Pauline Jarman ar 21 Mawrth 2002; a
- Daeth Gareth Jones yn lle Cynog Dafis fel Cadeirydd ar 21 Mawrth 2002.

**Cylch Gwaith a Chyfrifoldebau**
Mae'r cylch gwaith yn adlewyrchu portffolio'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes. Ymhlith eraill, mae'n cynnwys y cwricwlwm cenedlaethol a chymwysterau, pob agwedd ar weinyddu a threfnu ysgolion, addysg bellach ac uwch, yr ochr gyflenwi o'r polisi cyflogaeth - gan gynnwys y Fargen Newydd - a gwaith y gwasanaeth cyflogaeth, y gwasanaeth gyrfaoedd ac addysg a hyfforddiant perthnasol i waith. Mae cyfrifoldebau'r pwyllgorau pwnc fel y'u nodir yn Rheol Sefydlog 9.

**Ein Gwaith a'r Hyn a Gyflawnwyd Hyd Yma**
Mae'r Pwyllgor wedi cyfarfod 49 gwaith. Roedd y rhan fwyaf o'r cyfarfodydd hynny yng Nghaerdydd, ond rydym hefyd wedi cwrdd ym Merthyr Tudful, Aberaeron a Machynlleth. Hefyd, mae'r aelodau wedi ymweld â nifer o sefydliadau addysgol, yn ogystal â mynd ar ymweliadau i'r Alban a Gogledd Iwerddon i geisio gwybodaeth.

**Datblygu Polisi – *Rheol Sefydlog 9.7(i)***

- **Darpariaeth y Blynyddoedd Cynnar i Blant 3 Oed**

Cyhoeddwyd yr adroddiad a chafodd ei drafod yn y cyfarfod llawn ar 6 Mawrth 2001.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gweithredu'r rhan fwyaf o argymhellion y Pwyllgor, gan gynnwys:

- Comisiynu archwiliad o'r lefelau presennol o ddarpariaeth ac amcangyfrifon o'r galw yn y dyfodol a fyddai'n sail i'r anghenion cynllunio a datblygu a'r goblygiadau o ran costau; a
- Sefydlu panel cynghori i wneud argymhellion ar ddatblygiad y strategaeth a'i gynllun gweithredu.

Yn ddiweddar, lansiodd y Gweinidog ymgynghoriad ffurfiol ynghylch y cynigion am Gyfnod Sylfaen ar gyfer plant 3-7 mlwydd oed yng Nghymru a chyhoeddodd y byddai Canolfannau Integreiddio yn cael eu sefydlu ledled Cymru a fyddai'n dwyn ynghyd y pedair elfen allweddol yn y blynyddoedd cynnar - gofal hollgwmpasol, chwarae mynediad agored, a hyfforddiant a datblygiad.

- **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) ym maes Addysg**

Cyhoeddwyd yr adroddiad a chafodd ei drafod yn y cyfarfod llawn ar 13 Mawrth 2001.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gweithredu tri prif argymhelliad yr adroddiad:

- Sefydlu panel i roi cyngor ar TGCh;
- Sefydlu Tasglu TGCh; a
- Sefydlu Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu yng Nghymru - NGfLCymru

Bydd yr NGfL yn datblygu porth ar y we i Gymru, ar gyfer addysg ddwyieithog. Hwn fydd y brif ganolfan dysgu ar-lein a bydd yn cynnig deunyddiau cwricwlwm ac adnoddau addysg newydd i ddisgyblion ac athrawon.

- **Y Cyflenwad o Lefydd mewn Ysgolion**

Cyhoeddwyd yr adroddiad a chafodd ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ar 10 Gorffennaf.

Yn unol â phrif argymhelliad y Pwyllgor, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi sefydlu gweithgor ar y cyd ag Archwiliad y Dosbarth a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru i lunio methodoleg newydd ar gyfer mesur y llefydd sydd ar gael yn yr ysgolion.

- **Addysg Uwch**

Dechreuodd yr adolygiad polisi hwn ym mis Tachwedd 2000. Lansiwyd yr adroddiad yng Ngholeg Cerdd a Drama Cymru ar 15 Ionawr 2002 a chafodd ei drafod yn y Cyfarfod Llawn hefyd.

Yn yr adroddiad, disgrifiwyd ein gweledigaeth ar gyfer addysg uwch yng Nghymru a gwnaed argymhellion i'r Gweinidog Cynulliad. Roedd yr astudiaeth yn cymryd materion cenedlaethol, Ewropeaidd a rhyngwladol ehangach i

ystyriaeth, ynghyd â'r cenadaethau addysgu, ymchwil ac economaidd yn y sector.

Buom ar ymweliadau â Senedd yr Alban i geisio gwybodaeth ac ymwelwyd hefyd â Chynulliad Gogledd Iwerddon, lle cynhaliwyd cyfarfod pwyllgor swyddogol gydag aelodau o Bwyllgor Addysg Bellach ac Uwch, Hyfforddiant a Chyflogaeth Gogledd Iwerddon - y cyfarfod swyddogol cyntaf rhwng pwyllgorau'r ddau sefydliad yma ers datganoli.

Mewn ymateb i'r adolygiad hwn, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru strategaeth ar gyfer y sector addysg uwch yng Nghymru - *'Ymgeisio yn Uwch: Addysg Uwch a'r Wlad Sy'n Dysgu'*. Mae hwn yn mabwysiadu nifer o'r argymhellion allweddol yn adroddiadau'r Pwyllgor - yn anad dim, yr angen am fwy o gydweithredu strategol rhwng y sefydliadau addysg uwch yng Nghymru.

- **Y Gymraeg mewn Addysg**

Ar wahoddiad y Pwyllgor Diwylliant aethom ati i gynnal adolygiad o'r Gymraeg mewn Addysg. Roedd yr adolygiad hwn yn rhan o adolygiad polisi y Pwyllgor Diwylliant o'r iaith Gymraeg yn gyffredinol. Lansiwyd adroddiad ar y cyd '*Ein Hiaith: Ei Dyfodol'* a chynhaliwyd trafodaeth yn y Cyfarfod Llawn ar 9 Gorffennaf 2002. Dyma'r tro cyntaf i ddau bwyllgor pwnc gyhoeddi adroddiad ar y cyd.

Croesawyd yr adroddiad gan Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd yn y drafodaeth yn y Cyfarfod Llawn. Ym mis Awst, aeth aelodau'r o'r ddau Bwyllgor i'r Eisteddfod Genedlaethol yn Nhyddewi, Sir Benfro, i hyrwyddo'r adroddiad ac i ateb cwestiynau gan aelodau o'r cyhoedd.

Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru gynllun gweithredu *'Iaith Pawb: y Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwyieithog'.* Mae hwn yn cynnwys nifer o brif argymhellion y Pwyllgor. Mae'r rhain yn cynnwys yr angen am gyllid ychwanegol sylweddol mewn meysydd fel addysg feithrin ddwyieithog, hyfforddi athrawon drwy gyfrwng y Gymraeg, cyfnodau sabathol i athrawon ar bob cam ym myd addysg gael cyfle i ddysgu iaith, cymorth i ymarferwyr AAA, deunyddiau yn yr ystafell ddosbarth a chymorth arall yn y cwriwclwm ar gyfer yr iaith.

- **Adolygiad Polisi: Ysgol y Dyfodol**

Dechreuodd y pwyllgor ar ei adolygiad polisi presennol ym mis Hydref 2002. Mae'r Pwyllgor wedi pennu gweledigaeth ar gyfer ysgol y dyfodol, sef yn y 10 i 15 mlynedd nesaf. Sefydlodd y Pwyllgor grŵp cyfeirio i'w helpu yn ei waith. Roedd aelodau'r grŵp yn cynrychioli ystod eang o safbwyntiau ym maes addysg a hyfforddiant.

Ar 25 Mawrth 2003, bydd y Pwyllgor yn cyhoeddi adroddiad interim a bydd trafodaeth yn y Cyfarfod Llawn ar y pwnc hwn. Bydd yr adroddiad yn nodi'r casgliadau cyffredinol ac yn awgrymu pynciau i'w trafod ymhellach gan y pwyllgor addysg newydd.

**Materion Polisi Eraill**
Rydym hefyd wedi cyfrannu at y datblygiadau polisi allweddol hynny y mae'r Gweinidog yn gweithredu arnynt. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Adroddiad ar leihau'r baich biwrocrataidd mewn ysgolion;
- Adroddiad ar waith Tasglu Sgiliau Cymru;
- Asesu cynigion Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru ynghylch datblygiad proffesiynol parhaus i athrawon;
- prosiect peilot Anghenion Addysgol Arbennig;
- Y Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol;
- Y Rhaglen Grantiau Cynnal Addysg a Hyfforddiant (GCAH);
- Ymestyn Hawliau (Cyfarwyddyd a Chanllawiau);
- Addysgu am Gam-ddefnyddio Cyffuriau;
- Polisi ar gyfer Ysgolion Gwledig ac Ysgolion Bach; a'r
- Cynigion am gwricwlwm mwy eang ar gyfer pobl ifanc 14-19 mlwydd oed - *Llwybrau Dysgu.*

**Themâu Trawsbynciol**
Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol ddyletswydd statudol i ystyried pedair thema drawsbynciol, sef

- Cyfle cyfartal;
- Cynhwysiant cymdeithasol;
- Datblygu cynaliadwy; a'r
- Iaith Gymraeg.

Mae'r Pwyllgor wedi ystyried pob un o'r materion hyn yn ystod y cyfnod adrodd. Cyflwynodd Chwarae Teg bapur ysgogol ar gyfle cyfartal. Cafwyd cyfarfod diddorol, llawn gwybodaeth yng Nghanolfan y Dechnoleg Amgen ym Machynlleth ar thema addysgu ar gyfer datblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang.

Cafodd cynhwysiant cymdeithasol ac ehangu cyfranogiad eu cynnwys fel themâu yn ein hadolygiadau polisi o addysg uwch ac ysgol y dyfodol.

Buom yn ystyried rôl yr iaith Gymraeg mewn Addysg yn ein hadolygiad polisi ar y cyd â'r Pwyllgor Diwylliant. Hefyd, cafodd llawer o fusnes y Pwyllgor ei gynnal drwy gyfrwng y Gymraeg.

***Adolygiad o Wariant a Gweinyddiaeth*** – Rheol Sefydlog 9.7 (ii)
Cyflwynodd y Gweinidog adroddiad i'r pwyllgor i graffu arno bob mis ar fentrau polisi, ymgynghoriadau, materion cyllidebol a materion eraill. Roedd y Cadeirydd a'r Gweinidog yn trafod ac yn cytuno ar bynciau pob adroddiad ymlaen llaw, gan gymryd i ystyriaeth bynciau a awgrymwyd gan Aelodau'r Pwyllgor.

**Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad *- rheol sefydlog 9.7(iii)***
Yn ogystal ag Estyn, mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am fonitro a chraffu ar bedwar Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad:

- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC);
- Y Cyngor Cenedlaethol - ELWa (Addysg a Hyfforddiant ar ôl 16 oed);

- ACCAC (Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru);
- Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (CACC); ac
- Estyn (Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru).

Mae pob un o'r sefydliadau hyn wedi bod ger bron y Pwyllgor i gyflwyno'u cynlluniau corfforaethol a'u cynlluniau blynyddol. Maent hefyd wedi helpu'r Pwyllgor i baratoi tystiolaeth a chanllawiau yn ystod yr adolygiadau polisi. Rydym yn ddiolchgar am y cymorth a'r cyngor a roddwyd gan y sefydliadau hyn.

Cynhaliodd y Pwyllgor gyfarfod defnyddiol ac adeiladol ar y cyd â'r Pwyllgor Datblygu Economaidd i graffu ar gynigion y Cyngor Cenedlaethol - ELWa am hyfforddiant i helpu gweithwyr a ddiswyddwyd gan CORUS yng Nghasnewydd.

***Deddfwriaeth – Rheol Sefydlog 9.8 (i)***
Mae'r Pwyllgor wedi ystyried y Rheoliadau Arolygu Addysg a Hyfforddiant (Cymru) 2001, Rheoliadau Ariannu Ysgolion a Gynhelir (Diwygio) (Cymru) 2002 a'r Rheoliadau Addysg (Datganiadau Cyllideb) (Cymru) 2002 ac wedi adrodd amdanynt i'r Pwyllgor Llawn.

Cynhaliodd y Pwyllgor ddau sesiwn i gael gwybodaeth am y Mesur Addysg diweddar ar ei hynt drwy'r Senedd. Bu Mr Don Touhig AS, Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru, yn bresennol yn un o'r cyfarfodydd hyn i roi gwybod i'r Pwyllgor am hynt y Mesur ac i ateb cwestiynau. Cafodd y Mesur y Cydsyniad Brenhinol a daeth yn Ddeddf Addysg 2002. Dyma ran bwysig o ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n cynnwys sawl adran sy'n berthnasol i Gymru'n unig.

**Y Gyllideb** ***- rheolau sefydlog 9.8 (ii) ac 19.1 i 19.4***
Bob haf, yn unol â Rheol Sefydlog 19.1, rhoddodd y Pwyllgor ei farn ar y blaenoriaethau ar gyfer gwariant y Cynulliad yn y blynyddoedd ariannol nesaf. Bob Hydref, byddai Gweinidog Cyllid y Cynulliad yn cyflwyno cyllideb ddrafft yn amlinellu'r dull arfaethedig o ddyrannu adnoddau'r Cynulliad am y flwyddyn ariannol ganlynol, a'r dyraniadau amodol ar gyfer y ddwy flynedd ddilynol. Byddai'r Pwyllgor yn rhoi sylwadau ar y gyllideb ddrafft, gan gyfeirio'n benodol at faterion o fewn ei gylch gwaith.

Trafodwyd y gyllideb ddiweddaraf ar 24 Hydref 2002. Mynegodd y Pwyllgor bryder am y gwahaniaeth sylweddol rhwng cyflog a thelerau athrawon a chyflog a thelerau darlithwyr addysg bellach. Nododd y Gweinidog y pryderon hyn a rhoddodd tua £9 miliwn o gyllid ychwanegol i wella cyflogau darlithwyr addysg bellach a staff cymorth.

**Cwynion** ***- rheolau sefydlog 9.8 (iii), 21.6 a'r Cod Ymarfer ar Gwynion.***
Ni chyfeiriwyd unrhyw gwynion atom yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

**Y PWYLLGOR OLYNOL**
Bydd nifer a phortffolio'r pwyllgorau pwnc ar ôl etholiadau'r Cynulliad ym mis Mai 2003 yn dibynnu ar y ffordd y mae Prif Weinidog Cymru yn rhoi

cyfrifoldebau i aelodau Cabinet y Cynulliad am y gwahanol bynciau. Mater iddynt hwy benderfynu arno fydd y rhaglenni gwaith a blaenoriaethau'r pwyllgorau olynol.

Er mwyn helpu'r pwyllgor olynol yn ei drafodaethau rydym wedi llunio'r rhaglen waith dros dro yn Atodiad 1 ac yn gwahodd y pwyllgor olynol i ystyried canolbwyntio ar y maes canlynol o flaenoriaeth:

- Ysgol y Dyfodol - paratoi adolygiadau eraill sy'n adeiladu ar adroddiad interim y Pwyllgor.

Yn Atodiad 2, mae rhestr o bynciau i baratoi nodiadau briffio yn eu cylch ar gyfer y pwyllgor newydd.

**Atodiad 1**

## Y PWYLLGOR ADDYSG A DYSGU GYDOL OES

## BLAENRAGLEN WAITH AMODOL
## TYMOR YR HAF 2003

| EITEM | Amser | SYLW |
|---|---|---|
| **Cyfarfod 1** | | |
| Adroddiad y Gweinidog | | |
| ACCAC - Cynllun Corfforaethol | | |
| Egwyl | | |
| Llwybrau Dysgu 14-19: Canlyniad yr Ymgynghori | | |
| Blaenraglenni Gwaith | | |
| **Cyfarfod 2** | | |
| Y Cyngor Cenedlaethol - ELWa: Adolygiad Ariannu - Canlyniad yr Ymgynghoriad | | |
| Tasglu TGCh : Adroddiad ar Lwyddiant | | |
| Egwyl | | |
| Cynllun Gweithredu yr Iaith Gymraeg | | |
| CACC - Cynllun Corfforaethol Drafft | | |
| **Cyfarfod 3** | | |
| Adroddiad y Gweinidog | | |
| Caerdydd 2008 - Prifddinas Diwylliant Ewrop: Y Goblygiadau o ran Addysg | | |
| Egwyl | | |
| Cylch Cynllunio Cyllideb - Ystyried y Blaenoriaethau Allweddol | | |
| Cynllun Gweithredu ar Driwantiaeth | | |

**Sylwer:** Mae'n bosibl y bydd amser i gynnal un cyfarfod arall cyn toriad yr haf. Os felly, bydd y pwyllgor yn cytuno ar agenda briodol.

**Atodiad 2**

**Y PWYLLGOR ADDYSG A DYSGU GYDOL OES**

**PAPUR AR GYFER Y PWYLLGOR OLYNOL: PYNCIAU I BARATOI NODIADAU AMDANYNT**

1. Deddf Addysg 2002

2. Llwybrau Dysgu 14-19

3. Y Cyfnod Sylfaen 3-7

4. 'Ein Hiaith: Ei Dyfodol' a'r 'Cynllun Gweithredu ar yr Iaith Gymraeg: Iaith Pawb'

5. Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)
   - Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu (NGfL Cymru)
   - Tasglu TGCh

6. Addysg Uwch:
   - 'Ymgeisio yn Uwch'
   - Grantiau Dysgu'r Cynulliad
   - Papur Gwyn y DU ar Gyllido

7. Ysgol y Dyfodol
   - Ysgolion Cymunedol
   - Cwricwlwm ac Asesu
   - Cyfoethogi'r Profiad o Ddysgu

8. Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad:
   - ACCAC
   - Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru
   - Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
   - Y Cyngor Cenedlaethol - ELWa
   - Estyn